# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2010

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Eric Jones, G. W. Roberts OBE, J. Arwel Roberts, Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Rheolwr Archwilio Mewnol (JF)<br>Uchel Archwilydd Mewnol (EW)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Clive McGregor (Arweinydd y Cyngor), Mr. James Quance (Uchel Reolwr Archwilio - PwC), Mr. Kevin Williams (Cyfarwyddwr - PwC), Mr. Dylan James (PwC) |

---

1

2 Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Cyfeiriodd at y ffaith bod Ms Lynn Hine, PwC yn methu a bod yn bresennol oherwydd salwch a dymunodd adferiad llwyr a buan iddi. Diolchodd hefyd i'r Cynghorydd R. Llewelyn Jones, yr Is-Gadeirydd am ddirprwyo ar ei ran fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn yn ystod cyfnod o absenoldeb.

3

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd ac arwyddwyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod diwethaf o’r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 28 Medi 2010.

**3 DATGANIAD CYFRIFON 2009/10**

**3.1** Ailgyflwynwyd i sylw’r Pwyllgor cyn iddo gymeradwyo’r datganiad cyfrifon - adroddiad PricewaterhouseCoopers, LLP, Archwilwyr yr Awdurdod, mewn perthynas â'i waith ar archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod am 2009/10. Roedd yr adroddiad yn nodi nifer o faterion o bwys a oedd wedi codi yn ystod yr archwiliad.

Fel rhagair i gyflwyniad yr Archwilydd, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid y dywedwyd yn y cyfarfod blaenorol ym mis Medi 2010 nad oedd y Datganiad Cyfrifon wedi cael ei gwblhau mewn modd a fyddai'n caniatáu iddo gael eu arwyddo mewn pryd ar gyfer yr amser cau statudol ar 30 Medi. Ar y pryd, roedd nifer o faterion a oedd, safbwynt yr archwilwyr a'r Awdurdod, yn parhau i fod angen sylw. Y gobaith bryd hynny oedd y gallai Datganiad Cyfrifon terfynol gael ei lunio o fewn ychydig wythnosau, ond bu'r sefyllfa mewn gwirionedd yn anoddach i'w rheoli ac mae'r broses o gwblhau'r cyfrifon wedi cymryd mwy o amser oherwydd bod gwaith ac ymrwymiadau eraill wedi ymyrryd. Mae'r Datganiad Cyfrifon fel ag y mae yn awr ynghyd â chanfyddiadau'r archwilwyr allanol yn cael eu hailgyflwyno, a gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y materion sy'n codi ac wedi hynny, fabwysiadu'r datganiad cyfrifon ac wrth wneud hynny, dderbyn y newidiadau sydd wedi'u gwneud a hefyd unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud. Yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth, bydd y Datganiad Cyfrifon wedyn yn cael ei arwyddo fel bo'r angen.

Aeth Mr. James Quance, Uchel Rheolwr Archwilio, PwC yn ei flaen i nodi'r prif faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn dilyn trafodaeth arnynt gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) mewn cyfarfod i glirio'r cyfrifon a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2010. Roedd yr

eitemau hyn i'w gweld mewn manylder ar dudalennau 6 i 9 o adroddiad yr Archwilydd Allanol ac roeddynt yn cyfeirio at yr eitemau canlynol -

- ***Grantiau Gohiriedig y Llywodraeth (GDD)*** - paragraffau 9 i 13 o'r adroddiad.
- ***Cyflog Cyfartal*** - paragraffau 14 i 15 o'r adroddiad.
- ***Gwerthuso Swyddi*** - paragraffau 16 i 18
- ***Cyfrifo Cyfartal*** - paragraffau 19 i 20
- ***Y Pwyllgor Dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol - IFRC 12 Trefniadau Consesiwn Gwasanaethau*** - paragraffau 21 i 22
- ***Materion Eraill*** - paragraff 26 o'r adroddiad.

Dywedodd Mr. James Quance wrth adrodd ar y broses o gau'r cyfrifon, bod gan yr Archwilydd Allanol bryderon ynglyn ag agweddau ansoddol o arferion cyfrifo'r Cyngor a'i ddull o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe fethwyd y dyddiad cau o 30 Medi ar gyfer cymeradwyo'r cyfrifon fel y gofynnwyd am hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd) ac er na nodwyd unrhyw wendidau mawr yn rheoliadau ariannol seiliol yr Awdurdod, fe wnaeth yr Archwilydd Allanol nodi nifer o faterion ynglyn â llunio'r Datganiad Cyfrifon y bydd rhaid adrodd yn ôl arnynt i'r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu. Manylir ar y rhain ym mharagraff 30 ac maent yn cynnwys materion yn ymwneud â cholli staff cyfrifo allweddol a'r amser hollbwysig yn y broses o gau'r cyfrifon; cynhyrchu 5 fersiwn o'r cyfrifon ar gyfer yr archwiliad lle byddai wedi bod yn fuddiol petai uwch reolwyr wedi adolygu fersiynau cynharach o'r cyfrifon yn feirniadol er mwyn dileu nifer o wallau mwy amlwg yn y fersiynau cynnar; gwendidau gyda chadw cofnodion asedau a chofrestr asedau sefydlog nad oedd yn addas i'r pwrpas; system lejer a oedd yn hen-ffasiwn a gwallau wedi'u gwneud trwy ddefnyddio taenlenni i gysoni'r balans prawf i'r datganiadau ariannol. Yn ystod yr archwiliad, nodd yr Archwilwyr Allanol ddulliau posibl o symleiddio'r broses a bydd y dulliau hyn yn cael eu rhannu gyda'r Awdurdod. Bydd y swyddogion a'r Tîm Archwilio cael eu dadfriffio yn dilyn cymeradwyo'r cyfrifon er mwyn gwella'r broses yn 2010/11.

Rhai materion eraill yr adroddodd yr Archwilwyr arnynt yn cynnwys camddatganiadau oedd heb eu cywiro a chafwyd dadansoddiad o hynny yn Atodiad 2 yr adroddiad. Eglurodd Mr. Dylan James, PwC yr adroddir ar yr holl gamddatganiadau sydd heb eu cywiro heblaw am gamddatganiadau sy'n amlwg yn fân gamddatganiadau,diffinnir mân gamddatganiadau fel rhai sy'n hollol ddibwys (mae'r terfyn ariannol ar gyfer yr hyn a ystyrir yn fân gamddatganiad wedi'i gyfrifo ar £100k). Roedd y camddatganiadau heb eu addasi a nodwyd gan yr Archwilwyr yn dod i £329k ac nid ystyrir eu bod o bwys i'r cyfrifon. Nododd Mr. Dylan James hefyd y dull oedd gan yr Awdurdod o glandro'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg a nododd nad oedd yn cydymffurfio gyda chyfarwyddyd SORP. Roedd yr Archwilwyr wedi canfod mai cyfanswm y cynnydd a oedd yn angenrheidiol yn y ddarpariaeth dyledion drwg ar gyfer dyledwyr amrywiol er mwyn darparu ar gyfer pob dyled dros flwydd oed oedd £605k. Roedd yr Archwilwyr yn bwriadu parhau i gadw golwg ar lefelau casglu'r ddyled hon hyd at ddyddiad arwyddo'r cyfrifon. Wrth gloi ei adroddiad ar yr adolygiad o'r cyfrifon, dywedodd Mr. Dylan James bod yr Archwilwyr yn disgwyl cyhoeddi barn heb ei haddasu, yn amodol ar adolygiad terfynol o'r cyfrifon a derbyn y llythyr sylwadau a lofnodwyd. Nodwyd bod rhai gwendidau wedi'u nodi yn y rheoliadau mewnol ac roedd y rhain i'w gweld ym mharagraffau 42 i 46; neu fel arall nid oedd unrhyw fater yn codi yr oedd yn rhaid i'r Archwilydd Allanol adrodd arno'n unol ag ISA. Fodd bynnag, roedd un mater archwilio o ddiddordeb llywodraethu i'w adrodd arno sef y ffaith mai ychydig o gynnydd a wnaed gyda gweithredu proses ailddatgan mantolen IFRS, proses y manylir arni ym mharagraffau 50 i 53 o'r adroddiad.

Roedd yna nifer o faterion oedd yn hawlio sylw aelodau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifon a'r broses o'i llunio, yn cynnwys y canlynol:

- A oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â gwerthusiad yr Archwilydd Allanol bod ***angen gwneud gwelliannau ar fyrder i lefel arbenigedd ac ymarferoldeb systemau cyfrifo er mwyn lleihau'r risg.*** Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) mewn perthynas â'r pwynt hwn bod gwelliannau wedi cael eu gwneud a chamau gwella wedi eu cynllunio mewn perthynas â'r prif anawsterau'n sy'n ymwneud â chau'r cyfrifon gan gynnwys staff nad ydynt yn gyfarwydd gyda'r systemau. Roedd y Tîm Archwilio wedi nodi rhai gwelliannau ac roedd y rheiny wedi cael eu bwydo'n ôl yn anffurfiol i'r Gwasanaeth Cyllid; gobeithir y byddant yn cael eu ffurfioli mewn cyfarfod yn y flwyddyn newydd. Fodd bynnag, ni fydd y cyfan o'r gwendidau a nodwyd yn cael eu cywiro hyd nes y

bydd y systemau ariannol cyfredol a chadarn yn eu lle.  Mesur dros dro yw rhai o'r systemau presennol hyd nes gellir cyflwyno systemau priodol ac addas i'r pwrpas.  Gobeithir y gellir cymryd camau i symud y mater hwn yn ei flaen ac unwaith y gwneir hynny, fe ellir mynd i'r afael â'r gwendidau llai pwysig sydd ar ôl.

- ***Darpariaeth Dyledion Drwg.*** Roedd yna beth pryder bod lefel y ddyled heb ei chasglu yn £605k ac yn weddol uchel o'i chymharu â maint yr awdurdod.  Roedd gan rai aelodau ddiddordeb mewn dysgu mwy ynglyn â sut y mae'r awdurdod yn casglu dyledion ac i weld mwy o dystiolaeth am y ddyled o £605k.  Cafwyd trafodaeth ynglyn ag ymarferoldeb cyflwyno system o ragdaliadau neu fond yn arbennig mewn perthynas â busnesau yn ogystal â'r angen i gydbwyso'r golled ariannol trwy beidio â mynd ar ôl dyledion drwg yn erbyn costau'r broses o adennill y ddyled.  Gofynnwyd a oedd yna lefel benodol ar gyfer mynd ar ôl dilyn dyledion.  Un farn oedd y dylid ystyried sefydlu gwaelodlin ar gyfer dilyn dyled ddrwg ac y byddai'n anymarferol yn economaidd I geisio adennill dyleion dan y waelodlin honno.  Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) bod y ffigwr o £605k ynddo'i hun yn un gweddol hypothetig a phe na bai'r awdurdod yn casglu dyledion dros flwydd oed, yna dyna oedd y swm y byddai'n rhaid iddo'i ganfod.  Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn casglu dyledion sydd dros flwydd oed.  At hynny, mae llawer o incwm yr Awdurdod yn cael ei dderbyn trwy ddaliadau ymlaen llaw ac dyledion yn cronni mewn sefyllfaoedd lle nad yw'n bosibl mynnu ar daliadau ymlaen llaw, er enghraifft mewn perthynas â'r henoed lle mae unigolion yn mynd i ddyled tra bo pridiant ar eu heiddo.  Nid yw'r Awdurdod bob amser mewn sefyllfa i fynnu ar daliadau ymlaen llaw oherwydd natur y gwasanaethau y mae'n eu darparu, ac mae llawer o'r dyledion yn ymwneud ag aelodau'r cyhoedd yn hytrach na busnesau.  O safbwynt adennill dyledion, mae rhai dyledion yn cael eu dileu ar y sail bod hynny'n costio llai na cheisio eu hadennill.  Ceir eithriadau gyda dyledion y gellir eu gorfodi fel dyledion parcio.  Er hynny, nid oes gan yr awdurdod unrhyw reol gadarn ynglyn â pha bryd y mae'n ceisio adennill dyledion.  Nododd Mr. Kevin Williams, PwC bod yr aelodau'n pryderu am y gost ariannol i'r Awdurdod o fethu casglu, roedd yr archwilwyr ar y llaw arall yn edrych mwy ar y proses o benderfynu beth oedd yn ddarpariaeth resymol i bwrpas y cyfrifon.  Roedd hynny yn seiliedig ar y cysyniad o'r golled a gafwyd ac asesu a fyddai'r golled yn seiliedig ar rywbeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol ynteu a yw'n dybiaeth.  Yr hyn y mae'r Archwilwyr yn ei ddweud yw bod angen i'r awdurdod ddatblygu methodoleg ar gyfer meddwl am ddyledion drwg a'u hadnabod.
- ***Anghysonderau a nodwyd gan yr Archwilydd Allanol yn y broses o lunio'r cyfrifon fel a nodir ym mharagraff 30 yr adroddiad.*** Cyfeiriodd yr Aelodau'n arbennig at staff yn gadael ac effaith hynny ar y broses o gau'r cyfrifon.  Roedd yna beth pwyslais ar yr angen i gael proses a pholisi ynglyn â chyfweliadau gadael.  Soniwyd am nifer y fersiynau o'r cyfrifon a gynhyrchwyd gydag un aelod yn teimlo bod hynny'n arwydd nad oedd pethau'n dda yn y Gwasanaeth Cyllid. Roedd yr aelodau yn sylwi'n arbennig ar nifer y problemau systematig a nodwyd gan yr Archwilydd Allanol gan nodi bod ymadawiad staff a ffaeleddau yn y system yn ymddangos yn themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro.  Roedd yr aelodau'n bryderus y gallai'r problemau yn y Gwasanaeth Cyllid fod yn risg i'r Awdurdod cyfan.  Cafwyd awgrym bod angen gwerthusiad manwl o ba systemau sydd eu hangen ac erbyn pryd er mwyn hwyluso'r broses o baratoi'r cyfrifon; i gael gwared o ymdrechion gwastraffus ac i hyrwyddo'r newidiadau yn y broses fydd yn ei gwneud yn fwy heriol byth.  Gofynnwyd cwestiynau ynglyn â'r cyfnodau amser ar gyfer mynd i'r afael â'r materion godwyd gan yr Archwilydd Allanol mewn perthynas â pharatoi a llunio'r Datganiad Cyfrifon ac ar gyfer rhoi rhaglen o welliannau yn ei lle.
- O safbwynt arall, gwnaed sylwadau ynglyn ag **ansawdd ac amser y wybodaeth** y mae'r Gwasanaeth Cyllid yn ei derbyn gan wasanaethau eraill ar draws y Cyngor, gan ei fod yn dibynnu ar y wybodaeth honno ac felly roedd angen gwella'r llif gwybodaeth ar draws y Cyngor.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid i'r pryderon fynegwyd gan aelodau'r Pwyllgor o safbwynt gwendidau a nodwyd trwy ddweud bod y problemau a gafwyd gyda chau'r cyfrifon yn ymwneud â mwy nag un peth, a'r prif beth oedd systemau hen ac annigonol.  Wrth i fwy o ofynion gael eu cyflwyno yng nghyswllt paratoi a llunio cyfrifon, mae systemau'r awdurdod yn dod yn fwy anaddas.  Y mater sylfaenol y flwyddyn hon oedd colli un neu ddau aelod o staff allweddol oedd â gwybodaeth fanwl am y systemau hynny fel ag y maent ac effaith hyn oedd dod â'r gwendidau hynny sy'n bodoli yn y systemau, i'r amlwg.  Gyda'i gilydd, cyfrannodd y ddau beth hyn at greu'r sefyllfa waethaf bosib.  Yn arferol, nid yw trosiant staff yn broblem arbennig ac mae staff yn gadael i wella eu gyrfaoedd; ac nid yw cynhyrchu nifer o fersiynau o'r cyfrifon chwaith yn broblem wrth i'r gwaith o archwilio'r cyfrifon fynd yn ei flaen ac i'r cyfrifon gael eu llunio, mae cywiriadau'n cael eu gwneud ac mae'r cyfrifon yn esblygu.  Yn aml iawn felly, nid yw nifer y fersiynau ond yn adlewyrchiad o'r gwaith sy'n cael ei wneud.  Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth bod angen trafod gyda'r Archwilwyr Allanol faterion a oedd yn codi ar y ddwy ochr mewn perthynas â pharatoi'r cyfrifon.  O safbwynt y cyfnod amser i ymateb i'r materion a nodwyd gan yr Archwilwyr, fe fydd yna ymateb yng nghyd-destun y

gwelliannau ehangach sydd eu hangen o fewn y Gwasanaethau Cyllid yn dilyn adolygiad allanol arall o'r gwasanaeth yn ddiweddar.  Rhaid i'r materion sy'n codi gael eu blaenoriaethu mewn un cynllun gweithredu cynhwysfawr. Yn greiddiol i hyn oll, mae’r mater o’r buddsoddiad y bydd yn rhaid ei wneud mewn systemau a staff i fynd i'r afael â'r tanfuddsoddiad hanesyddol yn arbennig o safbwynt systemau. Bydd y mater o wella'r broses o baratoi'r cyfrifon yn cael ei chynnwys mewn un Cynllun Gweithredu cynhwysfawr gyda'r bwriad o roi sylw i'r materion ehangach yn y Gwasanaeth Cyllid yn gyffredinol.

Ymatebodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro i rai o'r pwyntiau godwyd gan yr Aelodau gan egluro nad oes gan yr Awdurdod bolisi yn ei le ar hyn o bryd ynglyn â chynnal cyfweliadau gadael.  Fe all y Tîm Adnoddau Dynol ychwanegu hyn i'r Cynllun Gweithredu AD ond o ystyried yr holl eitemau eraill oedd yn y Cynllun Gweithredu, mae'n annhebygol y bydd yn fater o flaenoriaeth. Ynglyn â'r mater o wella'r broses o gau'r cyfrifon, fe fydd trafodaeth ar y materion godwyd gan yr Archwilydd Allanol yn y flwyddyn newydd a byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor Archwilio gael adroddiad yn ôl ar y pwyntiau fydd wedi'u cytuno ar ôl y drafodaeth.  Dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro bod y broses wedi nodi'n glir bod yna broblemau ynglyn â systemau, ac yn benodol ynghylch a yw systemau'r Gwasanaeth Cyllid yn addas i'r pwrpas o safbwynt trefniadau cyfrifon modern ac mae angen ymchwilio  i'r pethau hyn.  Mae'r Gwasanaeth Cyllid yn ei gyfanrwydd yn wynebu rhaglen drom iawn a'r flaenoriaeth gyntaf fydd gosod cyllideb gadarn ar gyfer 2001/12.  Bydd camau gweithredu a nodir ac y cytunir arnynt yn awr yn cael eu hymgorffori mewn un Cynllun Gweithredu cyffredinol i'r Gwasanaeth ac fe ellir ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio gyda chyngor gan Swyddogion ynglyn â blaenoriaethu.  Pwysleisiwyd y bydd yr holl weithredu'n cael ei logio ac yna ei amseru yn ôl blaenoriaeth.

**3.2** Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid yn cynnwys cyfrifon drafft wedi'u harchwilio am 2009/10 ynghyd ag ymateb i'r materion godwyd yn yr adroddiad ISA 260 gan yr Archwilydd Allanol uchod, i'r Pwllgor ei ystyried a'i gymeradwyo.  Roedd yr adroddiad yn delio â'r newidiadau i'r cyfrifon ac yn arbennig y newidiadau wnaed gyda grantiau cyfalaf a ohiriwyd. Yn yr adroddiad hefyd, roedd eglurhad am beidio newid y cyfrifon yn yr eitemau a nodwyd gan yr Archwilydd Allanol fel yr adroddwyd arnynt o dan 3.1 uchod.

Cyflwynwyd gwybodaeth ychwanegol ar ffurf y Llythyr Archwilio Blynyddol drafft gan yr Archwilydd Allanol er mwyn derbyn sylwadau'r Pwyllgor.  Eglurodd Mr. James Quance, PwC bod y llythyr yn crynhoi'r prif negeseuon oedd yn codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd mewn perthynas â'r cyfrifon, y farn gwerth am arian ac archwilio'r cynllun gwella.  Roedd y llythyr yn ailadrodd nad oedd yr Awdurdod wedi cydymffurfio gyda'r rheoliadau adrodd yn ôl cyllidol oherwydd nad oedd yn gallu darparu set derfynol o'r cyfrifon erbyn y dyddiad cau rheolaethol.  Roedd y llythyr yn nodi bod peth cynnydd wedi ei wneud ynglyn â rhai agweddau o'r trefniadau i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd (y prif ganfyddiadau i’w cyflwyno yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol y bydd y Llythyr Archwilio terfynol yn rhan ohono) ond dygwyd sylw at rai materion sy’n parhau i fod angen sylw. sef trefniadau rheoli risg a'r diffyg Cynllun Adfer Trychineb TG a'r Cynllun Parhad Busnes.  Roedd y Llythyr yn dweud bod Cynllun Gwella'r Cyngor yn bodloni'r gofynion statudol ac yn darparu safbwynt gytbwys o'i berfformiad yn 2009/10, a'i fod wedi'i gyhoeddi ar ei wefan o fewn yr amser cau statudol, ond roedd mynediad i'r ddogfen wedi'i gyfyngu oherwydd nad oedd copïau caled ar gael.

Cafwyd diweddariad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid ar y sefyllfa ynglyn â chynnydd gyda'r trefniadau rheoli risg a'r trefniadau gyda chael Cynllun Adfer Trychineb TGCh a Chynllun Parhad Busnes.  Eglurodd bod y ffocws yn ddiweddar gyda'r cynllun parhad busnes wedi bod ar adleoli'r gwasanaethau TG i le mwy addas a ffit i'r pwrpas a thrwy hynny gadw parhad busnes; ac yn dilyn cwblhau hynny'n llwyddiannus fe ellir rhoi sylw i lunio Cynllun Adfer Trychineb a Chynllun Parhad Busnes.  Roedd yr aelodau'n parhau i fod yn bryderus ynghylch beth fyddai’r canlyniadau petai’r Awdurdod yn methu cydymffurfio gyda rheoliadau adrodd yn ôl oherwydd yr oedi gyda chyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon.  Roeddent eisiau gwybod hefyd a fydd unrhyw newidiadau yn digwydd o fewn y Gwasanaeth Cyllid a fyddai'n rhoi sicrwydd iddynt bod y sefyllfa'n gwella er ei fod yn cael ei gydnabod bod yr amseru yn anodd a bod pwysau eraill y flwyddyn hon yn golygu na fyddai'r gwelliannau mwyaf arwyddocaol yn dod i'r amlwg hyd 2012/13 a chyflwyno cyfrifon 2011/12.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid y bydd rhaid i'r Awdurdod efallai dalu ffi archwilio uwch a fyddai'n adlewyrchu'r gwaith ychwanegol yr oedd angen ei wneud ar y cyfrifon; roedd yr

ymdrechion ar gwblhau'r cyfrifon wedi golygu bod llai o amser ar gael ar gyfer paratoi'r gyllideb ac fe allai y bydd rhywfaint o risg anuniongyrchol mewn perthynas â thelerau benthyca llai ffafriol. Felly, er bod y risgiau sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio yn rhai anodd i'w meintioli, efallai y bydd risg i enw da'r Cyngor gyda chanlyniadau ariannol yn bosibl yn y tymor hir. O safbwynt newidiadau o fewn y Gwasanaeth Cyllid, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod trefniadau mewn llaw i gyfweld ymgeiswyr i swyddi cyfrifo allweddol a'r gobaith yw llenwi'r swyddi erbyn diwedd y mis. Mae gobaith hefyd y bydd problemau gyda'r system asedau parhaol wedi'u datrys ond mae'r broblem gyda'r prif systemau ariannol yn parhau ac mae'n debyg y byddant yn cael effaith ar systemau eraill.

Roedd yr Aelodau’n awyddus felly i’r Archwilydd Allanol gydnabod bod gweithredu yn digwydd i fynd i'r afael â rhai o'r prif faterion a nodwyd yn ei adroddiad a gofynnwyd i PwC ystyried ymgorffori datganiad i'r perwyl hwnnw yn y Llythyr Archwilio. Cadarnhaodd Mr. Kevin Williams y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i wneud darpariaeth o'r fath. Roedd yr aelodau hefyd yn awyddus i fonitro ac i dracio cynnydd gyda pharatoi cyfrifon 2010/11 fel eu bod yn gwybod am unrhyw broblemau tebygol ac felly yn ceisio osgoi ailadrodd anawsterau'r flwyddyn hon. Cafwyd cynigion a chytunwyd y byddai'r Pwyllgor Archwilio'n derbyn diweddariad chwarterol fel rhan o gynllun ehangach o welliant parhaus o fewn y gwasanaeth.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi'r adroddiad ISA 260 gan yr Archwilydd Allanol mewn perthynas ag archwilio cyfrifon 2009/10 a'r materion oedd yn codi yn yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo'r cyfrifon drafft a archwilwyd am 2009/10, a derbyn yr eglurhad dros beidio â newid y cyfrifon ar gyfer yr eitemau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 4 adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid mewn ymateb i adroddiad ISA 260 yr Archwilydd Allanol uchod.**
- **Gofyn i'r Gwasanaeth Cyllid ystyried mewn egwyddor, fabwysiadu strategaeth ar gyfer gwelliant parhaus, ac fel rhan o'r rhaglen honno, ddarparu adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio yn ei ddiweddaru ar y cynnydd gyda gweithredu'r pwyntiau dysgu oedd yn codi o adroddiad ISA 260 yr Archwilydd Allanol a gyda pharatoadau ar gyfer llunio Datganiad Cyfrifon 2010/11.**

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2009/10

**4.1** Adroddwyd bod y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 14 Medi 2010 wedi penderfynu derbyn cynnwys yr adroddiad Rheoli'r Trysorlys Blynyddol a'i fod yn cael ei anfon ymlaen i'r Pwyllgor Archwilio yn unol â phenderfyniad y Cyngor.

**4.2** Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys 2009/10 i'r Pwyllgor. Roedd yr Aelodau eisiau gwybod a oedd strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn gwyro tuag at fod yn bwyllog, ac os felly a oedd hynny'n cael ffaith ar y dychweliadau ac a fu yna unrhyw ddigwyddiadau ‘ond y dim’ yn ystod y flwyddyn yr oedd yr adroddiad yn cyfeirio atynt. Roedd cwestiwn hefyd ynghylch pa mor aml y caiff gweithgareddau rheoli'r Trysorlys eu hadolygu. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid na fu unrhyw ddigwyddiadau ‘ond y dim’ yn 2009/10 ac aeth ymlaen i egluro agwedd yr awdurdod tuag at fuddsoddi yn arbennig mewn perthynas â risg gwrthbarti a dywedodd ei fod yn ofalus ond ddim yn orofalus a chyfeiriodd hefyd at yr agwedd o safbwynt cyllido cyfalaf. Mae gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn cael eu hadolygu fel bo'r angen. Bydd unrhyw symudiadau sydyn yn y marchnadoedd buddsoddi neu fenthyca yn cael ei dwyn i sylw'r Awdurdod gan ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys a byddai trafodaeth wedi hynny ynglyn ag unrhyw weithredu. Tra bo'r proses o adolygu gweithgareddau rheoli'r trysorlys felly yn ymateb i newid yn y farchnad, mae'r gweithgareddau hynny hefyd yn cael eu hadolygu'n ffurfiol ar rai adegau yn y flwyddyn yn arbennig fel rhan o'r broses o adrodd i bwyllgor.

**Penderfynwyd derbyn Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2009/10 a nodi ei gynnwys.**

## 5 ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor adroddiad y Rheolwr Archwilio yng nghyswllt gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Tachwedd 2010.

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r agweddau canlynol o waith/materion archwilio mewnol -

- Cynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol hyd at fis Tachwedd 2010 fel a nodwyd yn Nhabl 1.
- Nifer y dyddiau cynlluniedig ar gyfer pob categori gwaith (540) o gymharu gyda'r dyddiau go iawn (374.2) gofnodwyd yn erbyn pob categori am y cyfnod fel yn Nhabl 2.3. Roedd cyfanswm o 75.8 (33%) o ddyddiau wedi'u colli o'r cyfanswm cynllunedig o waith archwilio i ddiwedd y cyfnod oherwydd absenoldeb salwch, gweinyddu archwilio, ymchwiliadau arbennig yn ogystal ag effaith y swydd wag Archwilydd Mewnol o fewn y gwasanaeth ers Medi 2010.
- Rhoddwyd cyfanswm ychwanegol o 84.47 dydd i waith nad oedd yn waith archwilio/gwaith heb fod yn gynhyrchiol. Roedd cymhariaeth o ffigyrau Ionawr 2010 i Ragfyr 2010 yn dangos bod y gwaith archwilio i lawr ar gyfer Rhagfyr 2010 o'i gymharu ag Ionawr 2010 gyda chynnydd cyfatebol mewn gwaith nad oedd yn waith archwilio.
- Y diffyg llwyddiant gyda recriwtio i'r swydd wag Uchel Archwilydd Mewnol a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella'r gobaith o ddenu ymgeisydd addas.
- Nifer yr adroddiadau a ryddhawyd yn y cyfnod ers y Pwyllgor Archwilio diwethaf. Saith adroddiad terfynol o'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2010/11 wedi'u rhyddhau ynghyd â phump adroddiad arall yn ymwneud â Chynllun Archwilio Mewnol 2009/10 a deg adroddiad terfynol heb eu cynllunio yn cynnwys pum adroddiad ymchwiliad arbennig. Hyd yma, roedd 36 o adroddiadau terfynol wedi'u rhyddhau yn 2010/11.
- Adroddiadau terfynol yn derbyn barn sicrwydd negyddol - yr un yn ymwneud â rheoliadau ariannol a chyllidebol yng Nghartref Preswyl Plant Queen's Park a dderbyniodd farn sicrwydd coch, a'r llall yn ymwneud ag adolygiad dilynol o gynnydd a wnaed i weithredu argymhellion allweddol yn ymwneud ag Adfer Trychineb TGCh a Pharhad Busnes a ddaeth i'r farn mai dim ond ychydig o gynnydd oedd wedi'i wneud. Roedd crynodebau gweithredol ar gyfer y ddau adolygiad ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad.
- Gwaith ymchwilio arbennig a wnaed yn y cyfnod. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar y cyd gyda GIG ar fater yn ymwneud â sefydliadau oedd yn cael eu rhedeg gan y Cyngor lle roedd rhai aelodau staff wedi arwyddo ffurflenni GIG ar ran preswylwyr a rheini'n cynnwys gwybodaeth anghywir.
- Tracio argymhellion y manylir arnynt yn Adran 5.1 o'r adroddiad. Roedd y perfformiad ar weithredu argymhellion archwilio mewnol yn parhau'n gyson ac, yn seiliedig ar y data hunan-asesu yn y Tabl Cynnydd Tracio Argymhellion Adrannol yn Atodiad A yr adroddiad, barn yr Adain Archwilio Mewnol oedd bod cynnydd rhesymol gyda gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol wedi'i wneud yn y cyfnod.
- Gwaith dilynol ar ddiffyg gweithredu ar argymhellion Archwilio Mewnol yng nghyswllt yr Adrannau Cynllunio a Hamdden a Chymunedau fel y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor Archwilio. Gwelwyd bod y diffyg gweithredu ar ran y ddwy adran yn ymwneud â materion adnoddau gyda diweddaru'r system 4Action i gadarhau statws gweithredu, yn hytrach na bod diffyg gweithredu wedi digwydd.

Roedd materion a godwyd gan aelodau yn y drafodaeth a ddilynodd yn cynnwys y canlynol -

- Yng nghyswllt y swydd wag ar gyfer Archwilydd Mewnol, pwysleisiwyd y dylid gwneud pob ymdrech i recriwtio'n fewnol a darparu hyfforddiant pe bai angen, neu trwy weithio mewn partneriaeth. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, roedd teimlad nad cyflogi pellach oedd yr ateb i swyddi gweigion.

- Dadansoddiad pellach o'r data mewn perthynas â gweithredu argymhellion archwilio a chanran diffyg gweithredu er mwyn rhoi eglurhad i aelodau ar weithredu amserlenni ac ati fel eu bod yn gwybod yn well ar ba feysydd i ganolbwyntio. Dywedodd y Rheolwr Archwilio bod dwy ystyriaeth yn berthnasol o ran tracio argymhellion - mae un yn ymwneud â gweithredu argymhellion a llall yn golygu uwchraddio'r system i ddangos bod y gweithredu wedi digwydd. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y camau gweithredu yn cael eu hadlewyrchu ar y system 4Action fel bod modd rhoi darlun cywir o'r camau a gymerwyd gan adrannau. Esboniodd y Rheolwr Archwilio mewn perthynas â dadansoddiad o oed yr argymhellion, bod yr holl argymhellion y rhoddwyd gwybod amdanynt wedi mynd heibio'r dyddiad gweithredu y cytunwyd arno. Fodd bynnag, gall y system ddarparu

dadansoddiad fesul Adran ar hyd y llinellau a awgrymwyd a gellid ei gynnwys yn yr adroddiad gwaith i'r cyfarfod nesaf.

Mewn perthynas â staffio, dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro y bydd angen adolygu strwythurau trefniadol ledled y Cyngor o ganlyniad i bwysau cyllidebol. Dywedodd ei fod yn credu bod angen rhoi mwy o sylw i greu cyllideb neu allu i hyfforddi a chefnogi staff o'r tu mewn i'r Cyngor, sef staff efallai nad ydynt yn gwbl addas ar hyn o bryd ar gyfer y swydd sy'n cael ei hysbysebu ond a fedr, gyda chymorth priodol, gael eu hyfforddi i wneud y gwaith. Mewn perthynas â'r swydd wag yn yr Adain Archwilio Mewnol, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid y bydd trefniadau cydweithio yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio fod yn ymwybodol o risg na fydd modd yn y cyfamser rhoi sylw llawn i'r holl Gynllun Archwilio - os oes swydd wag, efallai na fydd gwaith yn cael ei gwblhau'n llawn neu, os bydd hyfforddai yn cael ei recriwtio, efallai na fyddai'r gwaith yn cael ei wneud i'r un safon yn y tymor byr. Dygodd sylw at yr archwiliad ar y cyd gyda'r GIG fel enghraifft o gydweithio'n dda. Fodd bynnag, casglodd yr archwiliad bod staff wedi arwyddo ffurflenni heb wirio'r wybodaeth arnynt ac, o ganlyniad, roedd trigolion wedi derbyn rhai pethau nad oedd ganddynt hawl i'w cael. Dysgwyd y gwersi o'r digwyddiad hwn a byddant yn cael eu gweithredu.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Tachwedd 2010, a nodi ei gynnwys, ynghyd â'r pwyntiau a wnaed yn y drafodaeth arno.**

## 6 ADRODDIAD GAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU - ASESIAD CORFFORAETHOL RHAGARWEINIOL

**6.1** Dywedwyd bod y Cyngor Sir, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2010 wedi penderfynu cyfeirio Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w hystyried a bod y Grwp Llywio Adferiad yn cael mandad penodol i oruchwylio cynnydd.

**6.2** Cyflwynwyd yr adroddiad ar Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol dyddiedig Medi 2010 i'r Pwyllgor am sylw.

Rhoddodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd a wnaed ar y chwe maes allweddol a nodwyd ar gyfer ei wella gan yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol ac a gofnodwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad ynghyd â'i statws blaenoriaeth. Mewn perthynas â'r sylwadau a wnaed gan aelodau ar rai materion yr oeddynt yn teimlo bod yr adroddiad yn negyddol yn eu cylch o gymharu â'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd, gan gynnwys sôn ar nifer y pleidleiswyr, esboniodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol, yn unol â'r Mesur Llywodraeth Leol, weithredu'n egnïol i annog aelodau o'r cyhoedd i gofrestru a phleidleisio mewn etholiadau. Mae nifer y cofrestrwyr yn gymharol uchel ac er bod nifer y pleidleiswyr yn uchel mewn rhai rhannau o'r Ynys, mewn mannau eraill mae'n isel. Mae un o chwe argymhelliad y cyfeirir atynt uchod, yn ogystal â'r mesur newydd, yn golygu bod rhaid i'r Awdurdod ddatblygu strategaeth i wella'r sefyllfa yn y cyswllt hwn. Yr arweiniad clir gan yr aelodau oedd y dylai'r awdurdod ddefnyddio'r swyddfa gyfathrebu gyfredol i'r perwyl hwn. Ar nodyn ehangach, nododd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro mai persbectif hanesyddol sydd gan adroddiadau adolygu o'r fath oherwydd eu natur a'u bod yn cyfeirio at ddigwyddiadau a datblygiadau sydd wedi bod. Wrth wneud, gallant ymddangos fel eu bod wedi dyddio. Casglwyd y dystiolaeth ar gyfer asesiad corfforaethol rhagarweiniol o gwmpas Ebrill/Mai 2010. Yn ogystal, mae rheoleiddwyr yn tueddu i fod yn negyddol yn bennaf yn eu hagwedd sy'n golygu nad ydynt yn cydnabod gwelliant ar chwarae bach. Mae'n risg i'r holl awdurdodau sy'n destun camau ymyrryd y gallent wynebu disgwyliadau afrealistig ar ran y rheoleiddwyr. Rhaid i'r aelodau fod yn ymwybodol o hyn wrth ystyried adroddiadau o'r fath.

Cyfeiriodd aelod at ymgysylltiad y Cyngor gyda'r cyhoedd wrth benderfynu ei flaenoriaethau a dygodd sylw at y ffaith mai dim ond canran fechan mewn gwirionedd o etholwyr oedd yn dod i'r cyfarfodydd hawl i holi. Er ei fod yn cydnabod bod cyfarfodydd o'r fath yn syniad da, awgrymodd na ddylid darllen gormod iddynt ac er mwyn bod yn effeithiol ac yn fwy cynrychioliadol, roedd rhaid cynnal y cyfarfodydd hyn ar sail ehangach ledled yr Ynys. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor gael gwybodaeth ynghylch costau cynnal y sesiynau Hawl i Holi.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi'r cynnydd a wnaed ar roi sylw i'r meysydd allweddol ar gyfer gwella fel y cawsant eu nodi yn yr adroddiad ar yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol.**
- **Gofyn am i'r Pwyllgor Archwilio gael gwybodaeth ynghylch costau cynnal y sesiynau Hawl i Holi.**

**7 ACHOS O DORRI RHEOLAU DIOGELWCH - MAWRTH/EBRILL 2010 (REFENIW A BUDD-DALIADAU)**

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau a'r Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol yn amlinellu natur a maint yr achos o dorri rheolau diogelwch yn y Gwasanaeth Budd-daliadau a Refeniw er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am y camau a ddilynwyd i weithredu cynllun rheoli pan dorrwyd rheolau diogelwch ac roedd yno grynodeb o adroddiad y Grwp Ymchwilio a sefydlwyd o ganlyniad i'r achos.

Mewn perthynas â'r digwyddiad uchod, pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid mai hyn a oedd yn bwysig oedd, er bod gwybodaeth bersonol ac ariannol ar gyfer unigolyn wedi ei ddatgelu nid oedd unrhyw wybodaeth sensitif arwyddocaol a allai arwain at fedru adnabod unigolion wedi ei ddatgelu. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad roeddid yn disgwyl ymateb ffurfiol gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Derbyniwyd yr ymateb hwnnw bellach trwy lythyr ac mae'r Comisiynydd yn gofyn am wybodaeth ynghylch y camau yr oedd yr Awdurdod wedi eu cymryd i roi sylw i'r achos o dorri'r rheolau diogelwch. Mae'r Awdurdod wedi llunio Cynllun Gweithredu ac yn amodol ar gael ymateb boddhaol gan y Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer y cynllun hwnnw, gellir gweld y digwyddiad uchod fel un proffil isel.

Roedd yr aelodau yn derbyn yr eglurhad ar yr achos o dorri rheolau diogelwch ac roeddent yn croesawu cael adroddiad ar y mater ond gan nodi y byddant wedi gwerthfawrogi cael gwybod am y sefyllfa'n gynharach.

**Penderfynwyd nodi'r achos o dorri rheolau diogelwch, yr eglurhad ar sut y digwyddodd a'r camau a gymerwyd mewn ymateb.**

**Y Cynghorydd A. M. Jones**
**Cadeirydd**